GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD SIR GAERFYRDDIN

"Cefnogi darparu swyddogaethau democrataidd a galluogi ein cwsmeriaid i gyflawni eu rôl"

CYFARFODYDD DI-BAPUR

Cynhyrchwyd gan Wasanaethau Democrataidd Sir Gaerfyrddin.

01267 224028

Democraticservices@sirgar.gov.uk

"Os oes rhywbeth wedi'i wneud yn yr un ffordd ers amser hir, nid yw'n golygu nad oes modd ei newid a'i wella. Yn yr oes ddigidol hon, mae defnyddio papur ar gyfer cyfarfodydd yn fwyfwy gwastraffus ac anymarferol."

Gwybodaeth gyfredol

Mae'n cymryd 2-3 diwrnod gwaith i becyn o ddogfennau printiedig gyrraedd y Cynghorwyr drwy'r post, ond mae'n cymryd eiliadau yn unig dros e-bost. Drwy ddefnyddio pecynnau agenda electronig, bydd hysbysiadau a diweddariadau'n dod i law ar unwaith. Mae cyhoeddi papurau'n electronig ar wefan yr Awdurdod yn golygu y bydd y cyhoedd hefyd yn gallu cael mynediad at yr agendâu a'r adroddiadau yn electronig yn syth ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi ac nid oes angen mynd i Swyddfeydd y Cyngor, Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid na Llyfrgelloedd i gael gweld y dogfennau.

Mater diogelwch

Mae agendâu ac adroddiadau sy'n cael eu hargraffu ar bapur wastad wedi cael eu darparu i'r Cynghorwyr a'r Swyddogion, ond nid yw pecyn papur sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn ddiogel. Mae ap Mod.gov yn llunio pecyn agendâu electronig sydd wedi'i ddiogelu gan gyfrinair. Er mwyn cael mynediad at yr adroddiad, bydd angen i'r Cynghorwyr a'r Swyddogion fynd drwy'r mesurau diogelwch a meddu ar y caniatâd angenrheidiol i weld y papurau. Mae hyn yn cael gwared ar unrhyw risg o'r papurau'n mynd ar goll neu'n cael eu dwyn. Bydd yr ap hefyd yn cloi'r defnyddiwr allan yn awtomatig os bydd gormod o geisiadau'n cael eu gwneud i roi'r cyfrinair.

Arbed adnoddau

Mae'r Cynghorwyr a'r Swyddogion yn cael llawer o waith papur ar gyfer cyfarfodydd. Ar adegau, rydym wedi gweld pecynnau agendâu o 900 o dudalennau (neu fwy). Nid yw hyn yn cynnwys cost postio at gyfeiriadau'r Cynghorwyr neu amser y Swyddogion o ran coladu'r wybodaeth. Nid yw hon yn ymagwedd sy'n gydnaws â'r amgylchedd ac mae'n gostus. Pan fyddwn yn symud i weithio di-bapur bydd y costau adnoddau hyn yn dod i ben.

iPAD a MOD.GOV - PARATOI AT GYFARFODYDD DI-BAPUR A'U MYNYCHU

Mae llechen a gliniadur ynghyd â chyfeiriad e-bost @sirgar.gov.uk/@carmarthenshire.gov.uk yn cael eu neilltuo i'r holl Gynghorwyr er mwyn eu defnyddio ar gyfer yr holl gyfathrebu electronig mewn perthynas â busnes y Cyngor. Nid yw unrhyw gyfathrebu drwy gyfeiriadau e-bost personol yn dderbyniol.

Gall Cynghorwyr gael mynediad at eu cyfeiriadau e-bost, dyddiadur y Cyngor, papurau pwyllgorau a mewnrwyd yr Awdurdod drwy ddefnyddio llechen neu liniadur. Mae hyn yn galluogi'r aelodau i gyflawni eu dyletswyddau mor effeithiol â phosibl.

Dylai'r Cynghorwyr fod yn ymwybodol o'r polisïau canlynol y gellir eu gweld ar y fewnrwyd:-

Polisi Defnyddio'r E-bost a Monitro Hynny

Y Polisi Diogelwch Gwybodaeth

Y Polisi ynghylch Dyfeisiau Symudol

Y Polisi Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau

Yr hyn sy'n ofynnol gan Gynghorwyr a Swyddogion er mwyn sicrhau y bydd gweithio di-bapur yn llwyddiant:-

- Dylid dewis **Carmarthen Private** fel y **preferred publisher.** Bydd hyn yn eich galluogi i weld yr holl bapurau y mae gennych hawl i gael mynediad atynt. Os ydych wedi dewis *Carmarthen*, dim ond cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd y byddwch yn gallu eu gweld. Cysylltwch â'r Gwasanaethau Democrataidd os bydd angen i chi ailgofrestru eich dyfais ar gyfer *Carmarthenshire Private*.

- Bydd Cynghorwyr a Swyddogion yn cael e-bost a gynhyrchir drwy system gan democraticservices@sirgar.gov.uk yn syth ar ôl i agenda/cofnodion gael eu cyhoeddi. Ar ôl i'r neges e-bost cyhoeddi ddod i law, **lawrlwythwch** yr agenda ar **ap Mod.gov.** Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl ddogfennau sydd eu hangen ar gyfer y cyfarfod hwnnw wedi'u lawrlwytho i'r ddyfais hyd yn oed os bydd y rhwydwaith cyfan i lawr ar ddiwrnod eich cyfarfod. Yr **arfer gorau** yw agor mod.gov lle bo cysylltiad da â'r rhyngrwyd gennych (eich cartref neu adeilad y cyngor o bosibl).

- Sicrhewch fod eich dyfais wedi'i **gwefru'n llawn** cyn mynychu unrhyw gyfarfod. Darperir socedi pŵer ychwanegol yn y Siambr os bydd problemau o ran pŵer dyfeisiau.

- Os ydych wedi **anghofio eich dyfais**, **rhowch wybod i'r Uned Gwasanaethau Democrataidd** a allai fenthyg dyfais i chi ar y diwrnod (mae yna nifer gyfyngedig o ddyfeisiau ar gael i'w benthyg a byddant yn cael eu rhoi ar sail y cyntaf i'r felin).

- Os ydych wedi **anghofio** eich **cyfrinair mod.gov**, cysylltwch â'r Gwasanaethau Democrataidd a fydd yn datgloi eich dyfais a rhoi cyfrinair newydd i chi. Os ydych wedi **anghofio cyfrinair eich iPad**, ewch

i'r system Hunan-wasanaeth TG neu ffoniwch 01267 246789 neu est. 6789.

- Os **na allwch weld y cyfarfod** yn eich rhestr o bwyllgorau, efallai y bydd angen i chi **ddewis y Pwyllgor yn y Rhestr o'r Pwyllgorau**. Ewch i'r botwm tanysgrifo Pwyllgorau (ar frig ap Mod.gov ar yr ochr chwith) a thiciwch y cyfarfodydd yr hoffech eu gweld.

- Ymgyfarwyddwch â'r **canllaw i ddefnyddwyr ap Mod.gov**, sydd ar gael o dan Democratiaeth ar y fewnrwyd, neu ar bapur yn Lolfa'r Aelodau. **Canllaw cam wrth gam** yw hwn i ddefnyddio ap Mod.gov, sy'n cynnwys sut i weld dogfennau a'u hanodi.

- **Ewch** i bob sesiwn **hyfforddiant** Mod.gov i gael dealltwriaeth o'r ap a'r swyddogaethau yn yr ap. (Bydd sesiynau hyfforddiant a sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal rhwng Rhagfyr 2018 a Gorffennaf 2019 - gweler Dyddiadur y Cyngor).

*https://www.azeusconvene.co.uk/en/digital-meeting-board-platform-and-app